



Eich cyf P-06-1425
Ein cyf KSNWT/10620/24

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

26 Tachwedd 2024

Annwyl Carolyn,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Hydref ynghylch Deiseb P-06-1425: Gofynnwn i Lywodraeth Cymru wyrdroi ei phenderfyniad i atal bysiau T2 rhag galw yng Ngarndolbenmaen.

Rydym yn gwerthfawrogi'r sylwadau a wnaed yn y ddeiseb ac fe'u nodwyd.

Mae Trafnidiaeth Cymru bellach wedi cymryd cyfrifoldeb dros reoli'r contract gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth T2 TrawsCymru sy'n cysylltu Bangor ag Aberystwyth. Pan ail-dendrodd Trafnidiaeth Cymru y gwasanaeth y llynedd, fe gytunwyd gyda Chyngor Gwynedd y byddai gwasanaeth T2 yn ail-gyfeirio i wasanaethu Cricieth yn hytrach na Garnolbenmaen. Gwnaed y penderfyniad hwn i ail-gyfeirio'r gwasanaeth T2 trwy Gricieth i adfer y gwasanaeth bws rheolaidd uniongyrchol pwysig rhwng Cricieth a Chaernarfon / Bangor a gafodd ei dorri sawl blwyddyn yn ôl. Cyn y newid hwn, cysylltwyd Cricieth â Chaernarfon gan wasanaeth bws 1R cyfyngedig iawn a oedd ond yn gweithredu ar adegau penodol o'r dydd. Mae'r gwasanaeth T2 bellach yn codi tua 40 o deithwyr y dydd yng Nghricieth.

Ar yr un pryd, cyflwynodd Cyngor Gwynedd y gwasanaeth bws T22 newydd sy'n cysylltu Caernarfon – Porthmadog – Blaenau Ffestioniog, a chafodd y gwasanaeth hwn ei gyfeirio trwy Garnolbenmaen. Mae'r T22 wedi'i gynllunio i gysylltu â chysylltiadau bws rheolaidd ymlaen yng Nghaernarfon a'r gwasanaeth T2 ym Mhorthmadog ar gyfer cysylltiadau ymlaen. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi cadarnhau i ni fod 8 teithiwr y dydd ar gyfartaledd yn cael eu codi ac yn mynd i lawr ar wasanaeth T22 yng Ngarndolbenmaen yn dilyn y newidiadau, o gymharu â 10 teithiwr y dydd ar gyfartaledd yn mynd ar y gwasanaeth T2 pan arferai weithredu drwy'r pentref.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ein sicrhau bod nifer y teithwyr wedi cynyddu'n gyson ar y ddau lwybr ac nad oes ganddyn nhw, na Chyngor Gwynedd, unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i wneud unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', with a long, sweeping horizontal stroke above the letters.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru